**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1026
Ein cyf/Our ref LG/02221/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebiadau

Government.Committee.Business@gov.wales

Annwyl Janet Finch-Saunders

24th Medi 2020

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 medi, ynghylch y ddeiseb a gawsoch gan yr Ymgyrch yn erbyn Maglau sy'n gofyn am wahardd defnyddio maglau ar fywyd gwyllt ar gyfer y diwydiant ffwr.

Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r defnydd o faglau drwy'r cyfyngiadau sydd wedi'u cynnwys yn bennaf yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Lles Anifeiliaid 2006, Deddf Gwarchod Mamaliaid Gwyllt 1996 a Deddf Ceirw 1991. Nid oes ar hyn o bryd unrhyw reoliadau deddfwriaethol ar gyfer gweithgynhyrchu a gwerthu maglau.

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn darparu ar gyfer defnyddio codau ymarfer ar gyfer anghenion lles anifeiliaid. Nid yw methu â chydymffurfio â chôd o'r fath yn drosedd ohono ei hun. Fodd bynnag, gellid dibynnu ar fethu â chydymffurfio â darpariaeth berthnasol i god ymarfer mewn llys fel ffordd o sefydlu atebolrwydd.

Yn 2015, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cod ar yr Arferion Gorau wrth Ddefnyddio Maglau i Reoli Cadnoaid newydd o dan Adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Wrth baratoi'r Cod gweithiodd swyddogion gyda rhanddeiliaid oedd yn cefnogi parhau i ddefnyddio maglau (grwpiau buddiannau amaethyddol ac anifeiliaid) a'r rhai hynny a fyddai'n hoffi gwahardd pob defnydd ar faglau (grwpiau lles anifeiliaid). Mae rheoleiddwyr megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Heddlu hefyd wedi'u cynnwys mewn cyfarfodydd parhaus gyda rhanddeiliaid. Fel yr wyf eisoes wedi'i ddatgan, os na fydd y dull gwirfoddol hwn yn gwella arferion gweithredwyr a safonau lles anifeiliaid, byddaf yn ceisio rheoleiddio y gwerthiant a'r defnydd o faglau yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn diwedd y tymor hwn, byddaf yn cyhoeddi Papur Gwyn fydd yn paratoi’r ffordd ar gyfer cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ystod chweched tymor y Senedd. Y bwriadu yw i’r Bil ddarparu’r pwerau deddfwriaethol i reoleiddio pob agwedd ar y gwerthiant a’r defnydd o faglau yng Nghymru.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.